Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Enw Michele Aitchison Cwmni/Sefydliad Cyswllt Amgylchedd Cymru

Ymateb i Bapur Ymgynghorol Awdurdod S4C ar Wasanaethau Plant yn y Dyfodol Digidol

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (CAC) yn rhwydwaith o sefydliadau amgylcheddol a gwledig gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithredu ar draws Cymru gyfan. CAC yw'r corff swyddogol sy'n gweithredu rhwng llywodraeth a'r sector amgylcheddol gwirfoddol yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw cynyddu effeithiolrwydd y sector amgylcheddol a'i allu i warchod a gwella'r amgylchedd drwy hyrwyddo a lleisio barn y sector.

Nid yw CAC mewn unrhyw ffordd yn gwrthwynebu creu sianel deledu Gymraeg gwasanaeth cyhoeddus i blant, ond rydyn ni'n gofidio y gallai hyn arwain at ddileu gwasanaeth darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol gan S4C. Carai CAC, felly, wneud y pwyntiau canlynol yn ymateb i'r papur ymgynghorol uchod, ac yn benodol i bwyntiau 4, 6 a 7:

1. Cred CAC fod darlledu o'r Cynulliad Cenedlaethol yn wasanaeth cyhoeddus, ac wedi nodi gyda gofid felly fod Opsiwn 2 yn y ddogfen yn awgrymu dileu'r gwasanaeth.
2. Cred CAC y byddai rhoi'r gorau i ddarlledu gweithgareddau'r Cynulliad Cenedlaethol yn tanseilio athroniaeth waelodol y Cynulliad o fod yn agored ac yn dryloyw, yn enwedig o ystyried ymrwymiad diweddar y Cynulliad i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r Cynulliad.
3. Cred CAC y byddai'r newidiadau a awgrymir yn niweidiol i waith y sector amgylcheddol gwirfoddol, a'r Trydydd Sector yn gyffredinol, yn enwedig yng nghyd-destun ei waith yn pontio rhwng y sector a'r llywodraeth ac wrth fonitro polisi.
4. Mae Swyddog Gwybodaeth Cynulliad CAC, sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth gyfredol i'n haelodau, yn dibynnu yn aml ar ddarllediadau S4C2 wrth fonitro busnes y Cynulliad.
5. Mae'r darllediadau o'r Cynulliad ar S4C2 o fudd mawr i'r sefydliadau sy'n aelodau o CAC, yn enwedig gan fod canran sylweddol o'u staff:
    1. ddim yn byw yng Nghaerdydd ac felly yn methu mynychu'r Senedd
    2. heb Real Player, Media Player neu fand llydan ac felly yn methu gwylio darllediadau o'r Cynulliad ar y we.
6. Mae'r sefydliadau sy'n aelodau o CAC yn credu y byddai'r newidiadau sy'n cael eu hawgrymu yn ei gwneud hi'n anodd i aelodau o'r cyhoedd, yn enwedig eu cefnogwyr a gwirfoddolwyr, i ddilyn a deall busnes y Cynulliad; ac y byddai'n rhwystro pobl rhag ymwneud â'r Cynulliad.
7. Mae CAC yn galw ar S4C i ddewis Opsiwn 1 neu 3, a pharhau i ddarlledu gweithgareddau'r Cynulliad Cenedlaethol.
8. Byddai CAC yn derbyn Opsiwn 2, dim ond o dderbyn sicrwydd fod trydydd parti yn ymgymryd â chario'r gwasanaeth.
9. Mae CAC yn awgrymu y dylai S4C ymchwilio ymhlith defnyddwyr darllediadau'r Cynulliad, yn ogystal â'r ymchwil ar farn plant, fel sydd yn Rhan 2 y ddogfen ymgynghorol.
10. Byddai CAC yn awgrymu cysylltu gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru - fel rhanddaliwr sydd heb ei gynnwys yn Atodiad A.

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad pwysig hwn ac yn gobeithio y rhoddir ystyriaeth i'n sylwadau gan Awdurdod S4C, er mwyn diogelu darllediadau o'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r sefydliadau canlynol, sy'n aelodau o CAC, yn cyd-fynd â'r ymateb hwn:

Ymgyrch Ddiogelu Cymru Wledig
Cyngor Parciau Cenedlaethol
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru
Cymdeithas Gofod Agored
RSPB Cymru
WWF Cymru